

Rhif: WG36695



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad ar Bolisi Echdynnu Petrolwm: Ymateb

Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2018

Trosolwg Ymgynghoriad ar Bolisi Echdynnu Petrolïwm: Ymateb
Ymateb Llywodraeth Cymru ar yr ymgynghoriad ar
Bolisi Echdynnu Petrolïwm

**Oes angen
Gweithred** Dim – er gwybodaeth

**Rhagor o
wybodaeth a
dogfennau
cysylltiedig** **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon
mewn print bras, mewn Braille neu mewn
ieithoedd eraill.**

Medrwyh gael gafael ar y ddogfen hon drwy wefan
Llywodraeth Cymru
[https://beta.llyw.cymru/polisi-echdynnu-petrolewm-
yng-nghymru](https://beta.llyw.cymru/polisi-echdynnu-petrolewm-yng-nghymru)

Manylion Cysylltu I gael rhagor o wybodaeth:

Cyfeiriad: Fossil Fuel Policy – Petroleum Consultation
Division of Decarbonisation and Energy
Department for Energy, Planning and
RuralAffairs
Welsh Government Cathays Park
Cardiff, CF10 3NQ

E-bost: YmatebionYnni-EnergyResponses@gov.wales

Rhif ffôn:

Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan contract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth. Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD,
CF10 3NQ

e-bost:
Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow, Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Polisi echdynnu petrolewm Llywodraeth Cymru Canlyniad yr Ymgynghoriad

Roedd Deddf Cymru 2017 yn gam pwysig o ran rhoi rhagor o reolaeth i Weinidogion Cymru ar gyfer caniatáu prosiectau ynni yng Nghymru, gan gynnwys trwyddedu echdynnu nwy ac olew ar y tir yn y dyfodol. Roedd y pwerau newydd yn gyfle i ystyried beth ddylai'r cydbwysedd priodol o ffynonellau ynni fod nawr ac yn y dyfodol. Er mwyn cael sail i ddatblygu polisi ar gyfer trwyddedu petrolewm ar y tir, fe wnaeth Llywodraeth Cymru gomisiynu adroddiadau er mwyn edrych ar y dystiolaeth. Yna, fe wnaeth hi ofyn am safbwyntiau ar y dystiolaeth honno drwy gynnal ymgynghoriad. Roedd yr ymgynghoriad yn casglu'r dystiolaeth sy'n bodoli yng nghyswllt echdynnu petrolewm ar y tir, gan nodi'r risgiau a'r cyfleoedd a allai fod yn gysylltiedig ag echdynnu o gronfeydd petrolewm ar y tir yng Nghymru.

Pan nad oedd tystiolaeth ar gael ar y mathau o betrolewm a'r technolegau echdynnu cysylltiedig sy'n cael eu defnyddio yng Nghymru, comisiynwyd cyngor ychwanegol a'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r ymgynghoriad.

Cafodd y dadansoddiad o'r dystiolaeth a nodir yn yr ymgynghoriad ei ddylanwadu gan ein dyletswyddau o dan nifer o ddarnau pwysig o ddeddfwriaeth. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddangos sut bydd y camau rydyn ni'n eu cymryd yn gwella llesiant Cymru. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 wedi gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod allyriadau carbon Cymru yn 2050 o leiaf 80% yn is na llinell sylfaen 1990. I gloi, mae Polisi statudol Cyfoeth Naturiol yn nodi ein dull gweithredu a'n blaenoriaethau ar gyfer rheoli ein hadnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy.

Fe wnaeth yr ymgynghoriad ystyried effaith echdynnu petrolewm yn y dyfodol yn ogystal â nodi dadansoddiad o'r dystiolaeth. Hefyd, fe wnaeth yr ymgynghoriad nodi polisi echdynnu petrolewm arfaethedig ar gyfer Cymru sy'n cynnig peidio ag ymgymryd ag unrhyw drwyddedau petrolewm newydd yng Nghymru na chefnogi ceisiadau am gydsyniadau ar gyfer trwyddedau petrolewm sy'n defnyddio dulliau hollti hydroilig.

Fe wnaeth yr ymgynghoriad 3 mis ofyn am safbwyntiau ar y polisi petrolewm drafft, ar y dystiolaeth a'r dadansoddiad mae'n seiliedig arnynt, yn ogystal â rhoi cyfle i sefydliadau ac aelodau o'r cyhoedd gyflwyno tystiolaeth ychwanegol.

Cafwyd 1,964 ymateb i'r ymgynghoriad. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru gomisiynu Miller Research i gasglu, gwerthuso a dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Mae copi o'r adroddiad ar ddadansoddiad Miller yn cael ei gyhoeddi heddiw a bydd ar gael yn: <https://beta.llyw.cymru/polisi-echdynnu-petrolewm-yng-nghymru>

Roedd y rhan fwyaf o ymatebion yn datgan cefnogaeth ar gyfer y polisi Echdynnu Petrolewm arfaethedig fel y nodir yn yr ymgynghoriad. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn anghytuno â'r polisi arfaethedig. Mae crynodeb o'r prif faterion a godwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad yng nghyswllt y dystiolaeth a'r polisi arfaethedig wedi'u nodi yn Atodiad 1, ynghyd â'n hymateb i'r materion hyn.

Canlyniad yr Ymgynghoriad

Roedd y rhan fwyaf o ymatebion yn mynegi cefnogaeth ar gyfer y polisi drafft sy'n cynnig peidio ag ymgymryd ag unrhyw drwyddedau petrolewm newydd yng Nghymru na chefnogi ceisiadau am gydsyniadau i drwyddedau petrolewm sy'n defnyddio dulliau hollti hydrologig "ffracio".

Roedd y rhan fwyaf o ymatebion yn gwrthwynebu'r broses ffracio yn ogystal â'r broses echdynnu methan, gan gynnwys Methan Gwely Glo, o wythiennau glo. Roedd rhai ymatebwyr yn credu bod angen rhagor o dystiolaeth ar echdynnu Methan o Wely Glo a'r allyriadau cysylltiedig sy'n ffoi. Heb dystiolaeth o'r fath, roedd yr ymatebwyr yn teimlo nad oeddent yn gallu cefnogi gwaith echdynnu yn y dyfodol.

Daeth y rhan fwyaf o atebion unigol ac ymatebion ymgyrchoedd i'r casgliad y byddai llawer o effeithiau amgylcheddol-gymdeithasol yn sgil echdynnu petrolewm ac y byddai'r effeithiau hyn yn rhai negyddol yn bennaf. Roedd llawer o'r ymatebion hefyd yn nodi y byddai'r effeithiau o ran trafndiaeth yn negyddol yn yr ardaloedd ger y gwaith drilio. Mynegwyd pryderon ynghylch effeithiau tymor byr a'r rhai tymor hir y byddai echdynnu petrolewm yn eu cael ar iechyd a lles corfforol a meddyliol.

Doedd dim disgwyl i'r manteision tymor hir i gymunedau lleol fod yn rhai trawsnewidiol ac roedd disgwyl y byddai risgiau i'r amgylchedd lleol. Roedd y rhan fwyaf o ymatebion yn nodi na fyddai angen gwaith monitro, datgomisiynu nac ôl-ofal pe na bai gwaith echdynnu'n cael ei wneud. Mynegwyd pryderon nad oedd y dystiolaeth a gyflwynodd y cyrff Rheoleiddiol yn ddigon cadarn i ddangos y byddai modd lliniaru'r allyriadau niweidiol.

Roedd nifer fach o'r ymatebwyr, o'r diwydiant yn bennaf, yn anghytuno â'r polisi drafft. Fe wnaeth y rhan fwyaf o ymatebwyr nodi y byddai echdynnu petrolewm yn sicrhau manteision, gan gynnwys twf economaidd a lleihau dibyniaeth Cymru ar ynni wedi'i fewnforio, a hynny tra byddwn ni'n symud tuag at ynni carbon isel.

Mae cwmnïau a chyrrff sy'n gysylltiedig â'r diwydiant petrolewm yn credu bod nwy ac olew yn hanfodol i gymysgedd ynni Cymru, sy'n cael ei brofi gan y lefelau presennol o nwy sy'n cael ei fewnforio. Roedd ymatebion gan nifer o sefydliadau a deiliaid trwydded yn credu bod y risgiau yng nghyswllt newid hinsawdd, iechyd a datgomisiynu yn rhai y mae modd eu rhagweld a'u rheoli.

Er mwyn cyrraedd targedau newid hinsawdd, mae Cymru wedi ymrwymo yn y tymor hir i gael gwared â thanwyddau ffosil o'r gymysgedd ynni ac mae *Symud Cymru Ymlaen 2016-2021* yn nodi gwrthwynebiad Llywodraeth Cymru i ffracio, yn amodol ar dystiolaeth.

Mae'r dadansoddiad o'r dystiolaeth a'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi cadarnhau, er mwyn rheoli ein hadnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy, ni fydd buddiannau Cymru yn cael eu gwasanaethu drwy archwilio na datblygu ffynonellau newydd o echdynnu petrolewm. Roedd llawer o gefnogaeth i'r cynnig arfaethedig i beidio â chaniatáu ffracio.

I gloi, bydd y polisi a nodwyd yn yr ymgynghoriad felly yn cael ei fabwysiadu, sef:

Peidio ag ymgymryd ag unrhyw drwyddedau petrolewm newydd yng Nghymru na chefnogi ceisiadau am gydsyniadau i drwyddedau petrolewm sy'n defnyddio dulliau hollti hydroilig.

Mae'r diffiniadau sy'n ymwneud â'r polisi Olew a Nwy yn aros yr un fath â'r hyn sydd wedi'i egluro yn yr ymgynghoriad;

- Unrhyw olew mwynol neu hydrocarbon cysylltiedig a nwy naturiol sy'n bodoli yn ei gyflwr naturiol mewn strata (Deddf Petrolewm 1998)
- Mae echdynnu olew neu nwy yn golygu datblygiad sy'n gysylltiedig ag archwilio, gwerthuso neu echdynnu olew a nwy.

Ni fydd eithriadau'n cael eu hystyried oni bai fod yn rhaid echdynnu olew neu nwy er diogelwch cloddfeydd neu at ddibenion gwyddonol fel y nodir yn yr ymgynghoriad.

Atodiad 1: Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Ymgynghoriad Petrolewm

C1. Oes gennych chi safbwynt ar y dystiolaeth ar newid hinsawdd?	
Materion a Godwyd	Ymateb Llywodraeth Cymru
<p>Mae'r fframwaith rheoleiddio, y gofynion monitro a'r technolegau sydd ar gael ar hyn o bryd yn ddigon effeithiol a chadarn i leihau'r effeithiau posibl ar newid hinsawdd.</p>	<p>Rydyn ni'n cydnabod safbwynt y diwydiant, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a Cyfoeth Naturiol Cymru, sef bod y dechnoleg a'r fframwaith yn bodoli er mwyn gallu echdynnu cronfeydd petrolewm yn ddiogel ac er mwyn lleihau'r nwyon tŷ gwydr sy'n cael eu rhyddhau yn ystod y broses honno.</p> <p>Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod bod bylchau yn y sylfaen dystiolaeth a bod yn rhaid cael rhagor o wybodaeth er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r dechnoleg lleihau risgiau a'r ffordd orau o ddefnyddio'r rheoliadau presennol.</p> <p>Mae'r dull polisi sy'n cael ei ffafrio yn caniatáu ymchwil cwbl wyddonol a fyddai'n gwella'r sylfaen dystiolaeth sydd ar gael. Byddwn yn adolygu unrhyw dystiolaeth newydd sylweddol wrth iddi ddod i'r amlwg er mwyn llywio penderfyniadau polisi yn y dyfodol.</p>
<p>Mae diwydiannau eraill yn cael mwy o effaith ar allyriadau nwyon tŷ gwydr a byddai'r allyriadau cynhyrchu petrolewm yn gymharol fach.</p>	<p>Yn ddiweddar fe wnaethom ymgynghori ar lwybr carbon isel ar gyfer Cymru. Fe wnaeth yr ymgynghoriad ofyn am safbwyntiau ar ba gamau gweithredu y dylem eu cymryd i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr erbyn 2030. Mae'r ymgynghoriad ar y lwybr carbon isel yn tynnu sylw at allyriadau presennol Cymru a'r heriau a'r cyfleoedd sy'n ymwneud â datgarboneiddio mewn sectorau gwahanol.</p> <p>Mae'r ymgynghoriad ar gael yma. Mae'r ymgynghoriad yn cyflwyno syniadau am ffyrdd o symud oddi wrth danwyddau ffosil a chynyddu'r ynni adnewyddadwy sy'n cael ei gynhyrchu. Mae'r ymgynghoriad yn ystyried opsiynau dal a storio carbon, a datgarboneiddio pŵer, trafnidiaeth, adeiladau, amaethyddiaeth, diwydiant, y sector cyhoeddus a gwastraff.</p> <p>Er ei bod hi'n debygol y bydd yr allyriadau wrth gynhyrchu petrolewm yn gymharol fach, byddant yn dal i fod yn allyriadau ychwanegol ar restr eiddo Cymru.</p> <p>Yn ehangach, bydd echdynnu petrolewm yn cyfrannu at y cyflenwad ychwanegol o betrolewm yn y system ynni a bydd yn anodd gwybod a fydd cyflenwad o'r fath yn disodli petrolewm sy'n cael ei fewnforio ynteu a fydd yn gostwng y prisiau presennol ac</p>

	<p>yn creu rhagor o alw.</p>
<p>Mae'r ddibyniaeth ar betrolewm sy'n cael ei fewnforio yn gwrthdaro â'n polisïau datgarboneiddio ac mae'n dibynnu ar wledydd eraill sydd â rheolaethau rheoleiddio salach.</p>	<p>Mae Llywodraeth y DU yn dal i fod yn gyfrifol am bolisiau ynni, gan gynnwys canfod a mewnforio olew a nwy o'r tu allan i'r DU.</p> <p>Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed i gynhyrchu 70% o'r galw am drydan gan ddefnyddio ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2030.</p> <p>Rydyn ni'n cydnabod rôl nwy fel tanwydd yn ystod y cyfnod pontio nes y bydd yn cael ei ddisodli gan brosesau cynhyrchu ynni adnewyddadwy a niwclear carbon isel. Fodd bynnag, gallai cyflwyno cyflenwad ychwanegol o betrolewm i Gymru gymryd lle'r buddsoddiad mewn systemau ynni adnewyddadwy.</p>
<p>Byddai diwydiant petrolewm yn lleihau'r ddibyniaeth ar sectorau ynni eraill sy'n achosi mwy o lygredd, fel y diwydiant glo.</p>	<p>Yn ddiweddar, mae Llywodraeth y DU wedi ymgynghori ar roi diwedd ar gynhyrchu glo heb systemau rheoli carbon erbyn 2025, ac rydyn ni'n cefnogi hyn. Mae eisoes yn rhan o bolisi ynni Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i gael gwared ar y rôl mae glo yn ei chwarae yng nghyswllt cynhyrchu ynni.</p> <p>Yn ehangach, ni fydd tanwyddau ffosil, gan gynnwys nwy siâl a methan o wely glo, yn cyd-fynd â thargedau datgarboneiddio Llywodraeth Cymru fel arfer. Amcan polisi Llywodraeth Cymru felly yw osgoi parhau i echdynnu a defnyddio tanwydd ffosil.</p>
<p>Mae tystiolaeth o UDA yn awgrymu bod defnyddio ffynonellau domestig o betrolewm yn arwain at lai o allyriadau.</p>	<p>Mae angen bod yn ofalus wrth ddefnyddio tystiolaeth o wledydd eraill ar gyfer Cymru oherwydd bod y data sy'n cael eu defnyddio yn benodol i'r gwledydd hynny ac mae'r dull o weithio, y ddaearreg waelodol, y ffactorau lleol sy'n benodol i'r safle, y ddemograffeg wleidyddol-gymdeithasol a'r drefn rheoleiddio yn debygol o fod yn wahanol iawn.</p> <p>Mae adroddiadau tystiolaeth Llywodraeth Cymru yn cynnwys tystiolaeth o'r tu allan i Gymru, ond dim ond ar ôl i arbenigwyr technegol perthnasol adolygu perthnasedd y dystiolaeth.</p> <p>Mae tystiolaeth o UDA yn dangos eu bod nhw wedi elwa ar leihad cyffredinol mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr. Fodd bynnag, mae UDA hefyd yn allforio llawer o betrolewm a glo (sydd wedi cael ei ddisodli gan nwy siâl), ac mae'r allforion hyn yn cyfrannu'n sylweddol at allyriadau nwyon tŷ gwydr byd eang.</p> <p>Ar ben hynny, mae corff cynyddol o dystiolaeth yn awgrymu, yn ogystal â disodli glo,</p>

	<p>mae nwy naturiol yn UDA wedi effeithio ar dechnolegau eraill fel rhai adnewyddadwy a niwclear.</p>
<p>Mae ynni adnewyddadwy yn galw am system ynni wrth gefn sy'n seiliedig ar gynhyrchu pŵer nwy.</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i leihau'r tanwyddau ffosil mae hi'n eu cynhyrchu er mwyn datgarboneiddio prosesau cynhyrchu ynni yng Nghymru.</p> <p>Fe wnaeth Cymru gynhyrchu amcangyfrif o 32.5 TWh o drydan yn 2017, mwy na dwbl yr hyn wnaeth hi ei ddefnyddio. Felly, mae Cymru yn allforiwr trydan net sylweddol i Loegr, lwerddon a'r rhwydwaith Ewropeaidd ehangach.</p> <p>Fe wnaeth ynni adnewyddadwy Cymru gynhyrchu trydan sy'n gyfwerth â 48% o ddefnydd Cymru yn 2017. Ein targed yw cynhyrchu'r hyn sy'n gyfwerth â 70% o'r trydan rydyn ni'n ei ddefnyddio o ynni adnewyddadwy erbyn 2030.</p> <p>Mae adroddiad Cynhyrchu Ynni yng Nghymru 2017 ar gael yma.</p> <p>Wrth i'r system ynni ddatgarboneiddio, mae disgwyl i brosesau cynhyrchu nwy barhau i fod yn rhan o'r gymysgedd ynni, er enghraifft, i ddarparu pŵer brig yn ystod cyfnodau o alw mawr a chyflenwad amrywiol. Mae graddau'r rôl hon a graddfa debygol y gwaith nwy fydd yn cael ei ddefnyddio yn amrywio o dan wahanol sefyllfaoedd ynni yn y dyfodol. Gallai technoleg Dal a Storio Carbon leihau effaith carbon cynhyrchu tanwyddau ffosil; fodd bynnag, nid yw'r dechnoleg hon wedi'i phrofi eto.</p> <p>Fel yr ystyriwyd ar gyfer y llwybr carbon isel i Gymru, mae angen i ni barhau i ddatblygu a chefnogi ffurfiau newydd ar ynni adnewyddadwy er mwyn creu system ynni aml-factor a chytbwys.</p>

C2. Oes gennych chi safbwynt ar y dystiolaeth Amgylcheddol-Gymdeithasol?	
Materion a Godwyd	Ymateb Llywodraeth Cymru
<p>Nid yw eich tystiolaeth yn cyflwyno unrhyw ddadl ddilys yn erbyn defnyddio petrolewm ar sail amgylcheddol.</p> <p>Does dim tystiolaeth yn dangos y bydd echdynnu petrolewm yn arwain at lygru</p>	<p>Rydyn ni'n cydnabod safbwynt y diwydiant, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru, sef bod y dechnoleg a'r fframwaith rheoleiddio yn bodoli er mwyn gallu echdynnu cronfeydd petrolewm yn ddiogel ac y dylai'r risgiau posibl i iechyd y cyhoedd yn sgil yr allyriadau sy'n gysylltiedig â phetrolewm fod yn isel os bydd y gwaith yn cael ei wneud a'i reoleiddio'n</p>

<p>dŵr daear ac y byddai'r rheoliadau presennol yn effeithiol.</p>	<p>iawn.</p> <p>Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod y bydd effeithiau ar yr amgylchedd o ganlyniad i gynhyrchu, cario, prosesu ac adeiladu ar y safle a bod bylchau yn y sylfaen dystiolaeth a bod yn rhaid cael rhagor o wybodaeth er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r dechnoleg lleihau risgiau a'r ffordd orau o ddefnyddio'r rheoliadau presennol.</p> <p>Mae'r dull polisi sy'n cael ei ffafrio yn caniatáu ymchwil cwbl wyddonol a fyddai'n gwella'r sylfaen dystiolaeth sydd ar gael. Byddwn yn adolygu unrhyw dystiolaeth newydd sylweddol wrth iddi ddod i'r amlwg er mwyn llywio penderfyniadau polisi yn y dyfodol.</p> <p>Fe wnaeth yr ymgynghoriad a'r polisi arfaethedig sy'n cael ei ffafrio geisio ystyried y materion amgylcheddol a phrosesau rheoleiddio'r diwydiant yn ogystal â'i effaith bosibl ehangach ar gymdeithasau, lles dinasyddion Cymru a'n rôl fel dinesydd byd-eang. Nid ydym yn credu bod y dystiolaeth a nodir yn yr ymgynghoriad, ynghyd â'r dadansoddiad, yn cyflwyno achos cryf o blaid echdynnu petrolewm oherwydd bod hynny'n gorbwysu ein hymrwymiad i reoli ein hadnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy.</p>
<p>Roedd y dystiolaeth amgylcheddol-gymdeithasol yn seiliedig ar ystod eang o ragdybiaethau ac felly nid yw'n ddibynadwy.</p>	<p>Cafodd y gwaith ymchwil economaidd-gymdeithasol hwn ei gynnal gan Brifysgol Caerdydd gan ddefnyddio'r data a'r wybodaeth orau sydd ar gael. Mae'r adnoddau dadansoddi sydd wedi'u defnyddio wedi cael eu hadolygu'n fanwl gan gyfoedion mewn llenyddiaeth academiaidd ac wedi cael eu defnyddio'n llwyddiannus ar gyfer sectorau diwydiant eraill.</p> <p>Mae'n ofyniad hanfodol i'r holl waith modelu, yn enwedig os nad oes llawer o ddata go iawn, ddefnyddio rhagdybiaethau. Mae'r rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad economaidd-gymdeithasol yn gynnyrch ymchwiliad trylwyr gan Brifysgol Caerdydd ac maent yn cael eu hategu gan gorff mawr o ymchwil sydd wedi'i adolygu gan gyfoedion.</p> <p>Cafodd natur sensitif allbynnau'r model i'r rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd eu dadansoddi er mwyn sicrhau casgliadau cytbwys.</p> <p>Mae modd edrych yn fanwl ar yr holl ragdybiaethau a ddefnyddiwyd yn adroddiadau tystiolaeth yr ymgynghoriad a'r cyfeiriadau cysylltiedig:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Irfan, M., 2014. System sy'n helpu i wneud penderfyniadau gofodol ac integredig gan

	<p>ddefnyddio amryw o feini prawf, sy'n cynnwys safbwyntiau amgylcheddol, cymdeithasol a gofal iechyd, i'w ddefnyddio mewn ceisiadau ynni daear a rhai geoamgylcheddol, Prifysgol Caerdydd.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Irfan, M., Koj, A., Sedighi, M., Thomas, H., 2017. Dylunio a datblygu system sy'n helpu i wneud penderfyniadau gofodol, yn seiliedig ar ddadansoddi penderfyniadau sy'n defnyddio amryw o feini prawf a deallusrwydd artiffisial. GeoResJ, 14, tt. 47-58.
Roedd yr ymatebwyr yn credu bod tystiolaeth o wledydd eraill yn adlewyrchu effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol aruthrol o negyddol.	<p>Mae angen bod yn ofalus wrth ddefnyddio tystiolaeth o wledydd eraill ar gyfer Cymru oherwydd bod y data sy'n cael eu defnyddio yn benodol i'r gwledydd hynny ac mae'r dull o weithio, y ddaearog o dan yr wyneb, y ffactorau lleol sy'n benodol i'r safle, y ddemograffeg wleidyddol-gymdeithasol a'r drefn rheoleiddio yn debygol o fod yn wahanol iawn.</p> <p>Mae'r dull polisi sy'n cael ei ffafrio yn caniatáu ymchwil cwbl wyddonol a fyddai'n gwella'r sylfaen dystiolaeth sydd ar gael. Byddwn yn adolygu unrhyw dystiolaeth newydd sylweddol wrth iddi ddod i'r amlwg er mwyn llywio penderfyniadau polisi yn y dyfodol.</p>
Gall safleoedd echdynnu petrolewm gael effaith gadarnhaol ar gymunedau, drwy becyn manteision cymunedol, er enghraifft.	<p>Mae'r dystiolaeth o'r astudiaeth gan Regeneris yn 2015, a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad, yn dangos bod effeithiau economaidd yn debygol o fod yn rhai dros dro ac y bydd llawer o'r rolau technegol cyflog uchel yn cael eu llenwi gan bobl o'r tu allan i'r gymuned leol.</p> <p>Nid ydym yn fodlon peryglu llesiant cymunedau'r dyfodol pan fo'r potensial ar gyfer swyddi tymor hir yn fach.</p> <p>Rydyn ni'n cydnabod y gallai pecyn manteision cymunedol, tebyg i'r Gronfa Cyfoeth Siâl, fod o fudd i gymunedau lleol. Fodd bynnag, ni fyddai pecyn o'r fath yn cael gwared â'r effeithiau posibl y byddai cynhyrchu petrolewm yn eu cael o ran yr amgylchedd a newid hinsawdd.</p>

C3. Oes gennych chi safbwynt ar y dystiolaeth ar lechyd?	
Materion a Godwyd	Ymateb Llywodraeth Cymru
Ni fyddai rheoleiddio'n goresgyn unrhyw	Rydyn ni'n cydnabod safbwynt y diwydiant, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a

<p>oblygiadau iechyd negyddol.</p> <p>Gallai cwmnïau rhyngwladol sy'n gweithredu o fewn y fframweithiau rheoleiddio y tu allan i'r DU ddefnyddio arferion gweithredu a busnes o wledydd eraill.</p> <p>Does dim tystiolaeth ddilys a chredadwy wedi cael ei chyflwyno i brofi unrhyw rai o'r "honiadau o fygythiadau iechyd sy'n cael eu taflu o gwmpas."</p>	<p>Diogelwch, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru, sef bod y dechnoleg a'r fframwaith rheoleiddio yn bodoli er mwyn gallu echdynnu cronfeydd petrolewm yn ddiogel ac y dylai'r risgiau posibl i iechyd y cyhoedd yn sgil yr allyriadau sy'n gysylltiedig â phetrolewm fod yn isel os bydd y gwaith yn cael ei wneud a'i reoleiddio'n iawn.</p> <p>Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod bod bylchau yn y sylfaen dystiolaeth a bod yn rhaid cael rhagor o wybodaeth er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r dechnoleg lleihau risgiau a'r ffordd orau o ddefnyddio'r rheoliadau presennol.</p> <p>Mae'r dull polisi sy'n cael ei ffafrio yn caniatáu ymchwil cwbl wyddonol a fyddai'n gwella'r sylfaen dystiolaeth sydd ar gael.</p>
<p>Mae llawer o dystiolaeth iechyd fwy diweddar sydd wedi'i hadolygu gan gyfoedion ar gael na'r hyn a gyflwynwyd yn yr adroddiad tystiolaeth iechyd.</p> <p>Mae'n synhwyrol ac yn gywir seilio polisi cyhoeddus ar ddata gwyddonol cadarn.</p> <p>Beth yw'r bylchau yn y data, yn enwedig yng nghyd-destun amgylchedd rheoleiddio'r DU?</p> <p>Mae'n rhaid cael rhagor o wybodaeth drwy ddatblygu'r diwydiant yng Nghymru.</p> <p>Does dim modd i bolisi'r dyfodol fod yn seiliedig ar yr ychydig o dystiolaeth benodol i Gymru sydd ar gael ar hyn o bryd.</p>	<p>Roedd y dystiolaeth a ddarparwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i fod i gael ei defnyddio fel adolygiad cychwynnol yn unig. Fe wnaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru argymhell, pe bai'r diwydiant echdynnu petrolewm yn cael ei ddatblygu yng Nghymru, dylid cynnal adolygiad manwl sy'n benodol i Gymru er mwyn cael gwell dealltwriaeth o goblygiadau cynhyrchu petrolewm ar yr amgylchedd ac ar iechyd yn ehangach.</p> <p>Felly, rydyn ni'n cytuno y dylid cynnal adolygiad felly pe bai gwaith echdynnu petrolewm yn cael ei ganiatáu yng Nghymru. Byddai'r adolygiad hwn yn ddull ar gyfer canfod gwybodaeth newydd a'r ffordd orau o fynd i'r afael ag unrhyw fylchau. Byddai adolygiad o'r fath yn cynhyrchu a dadansoddi data penodol i Gymru.</p> <p>Mae'r dull polisi sy'n cael ei ffafrio yn caniatáu ymchwil cwbl wyddonol a fyddai'n gwella'r sylfaen dystiolaeth sydd ar gael. Byddwn yn adolygu unrhyw dystiolaeth newydd sylweddol wrth iddi ddod i'r amlwg er mwyn llywio penderfyniadau polisi yn y dyfodol.</p> <p>Er ein bod ni'n cydnabod bod y dystiolaeth iechyd wedi'i chyflwyno fel ystyriaeth gychwynnol yn unig, cafodd y safbwynt polisi rydyn ni'n ei ffafrio ei bennu yn erbyn sawl gofyniad deddfwriaethol a pholisi, yn ogystal â thystiolaeth sy'n ymwneud ag effeithiau economaidd-gymdeithasol, economaidd, newid hinsawdd, ôl-ofal a chynllunio.</p>
<p>Roedd yr ymatebwyr yn poeni bod y</p>	<p>Mae'r cynllun trwyddedu amgylcheddol yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr</p>

<p>diwydiant a'r llywodraeth yn anwybyddu neu'n cuddio tystiolaeth sy'n ymwneud ag iechyd.</p> <p>Nid yw'r adnoddau angenrheidiol ar gael i fonitro'r holl agweddau ar echdynnu petrolewm ac roedd hunan-fonitro yn cael ei hystyried yn broses annibynadwy.</p>	<p>petrolewm fonitro ac adrodd ar allyriadau i ddŵr, wyneb dŵr, tir ac aer yn yr achosion canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Os yw'r drwydded yn caniatáu gollyngiadau rheolaidd i'r amgylchedd; • Os oes risg benodol o ryddhau y dylem wybod amdani; neu • I wirio bod effaith y gweithgareddau ar yr amgylchedd yn cyd-fynd â'r hyn a ragwelwyd. <p>Mae Cyfoeth Naturiol Cymru, y rheoleiddiwr amgylcheddol, yn defnyddio ardystiad monitro sy'n ymwneud â'r systemau monitro (er enghraifft, offerynnau, dadansoddwyr ac offer), ardystiad cymhwysedd personél, achrediad labordai a sefydliadau sy'n rhan o'r gwaith samplu.</p> <p>Caiff yr holl ddata monitro eu casglu a'u hadolygu gan Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn sicrhau cydymffurfiaid ag amodau'r drwydded. Mae llawer o'r data hyn ar gael drwy'r Gofrestr Gyhoeddus.</p> <p>Rhaid i'r holl weithredwyr gydymffurfio ag amodau eu trwydded sy'n pennu'r gofynion o ran monitro ac adrodd. Mae rhagor o wybodaeth ar sut mae cydymffurfio â thrwydded amgylcheddol ar gael yma.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wneud penderfyniadau agored a thryloyw. Mae gwybodaeth am sut byddwn ni'n penderfynu ar geisiadau am gydsyniad petrolewm ar gael yma. Bydd y dudalen we hefyd yn cynnwys y canllaw technegol sy'n cael ei roi i weithredwyr petrolewm.</p>
<p>Roedd pryder ynghylch rheoleiddio a gallu Llywodraeth Cymru i reoleiddio a monitro'r diwydiant yn effeithiol.</p>	<p>Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am weinyddu'r trwyddedau presennol, sy'n golygu archwilio, cynhyrchu a datgarboneiddio. Rydyn ni wrthi'n datblygu'r canllawiau a'r prosesau angenrheidiol i reoli'r trwyddedau presennol, a byddwn ni'n gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac awdurdodau cynllunio lleol i sicrhau bod y fframwaith rheoleiddio yn effeithiol.</p> <p>Mae fframwaith o'r fath yn ofynnol ar gyfer parhau i weinyddu'r trwyddedau presennol.</p> <p>Mae gwybodaeth am sut byddwn ni'n penderfynu ar geisiadau am gydsyniad petrolewm ar gael yma. Bydd y dudalen we hefyd yn cynnwys y canllaw technegol sy'n</p>

	cael ei roi i weithredwyr petrolewm.
Nid yw'r dulliau echdynnu, dad-ddyfrio a hollti hydrolig, yn rhai cymharol newydd fel mae'r dystiolaeth yn ei nodi ac roedd y gwaith cloddio glo a gafodd ei wneud yng Nghymru yn llawer mwy ymosodol na'r technegau drilio sy'n cael eu defnyddio yn y diwydiant nwy confensiynol a/neu anghonfensiynol heddiw.	Rydym yn cydnabod bod drilio twll turio yn weithgaredd cyffredin sy'n cael ei ddeall yn dda. Fodd bynnag, rydyn ni'n credu y gallai dad-ddyfrio a hollti hydrolig yng nghydestun echdynnu petrolewm, er nad ydynt o reidrwydd yn dechnegau modern, achosi peryglon amgylcheddol sylweddol. Nid ydym wedi ystyried effaith echdynnu petroliwm o'i gymharu â diwydiannau mwynol neu echdynnol eraill (presennol neu hanesyddol). Yn hytrach, rydyn ni wedi ystyried ei effaith benodol o ran rôl tanwyddau ffosil yng Nghymru. Yn benodol, rydym wedi ystyried rôl petroliwm yng ngoleuni'r hinsawdd bresennol a'r pryderon amgylcheddol ac ymrwymiad Cymru i symud tuag at ynni adnewyddadwy a chyfrannu at yr angen bydeang i leihau allyriadau carbon.
Gall cwmnïau aml-wladol sy'n gweithredu mewn fframweithiau rheoleiddio o du hwnt i'r DU weithredu ymarferion busnes a gweithredol o wledydd eraill.	Mae'r holl gwmnïau sy'n gweithredu yn y DU yn gorfod dilyn cyfreithiau'r DU. Mae rhaid iddynt weithredu o fewn cyfraith y DU, gan gynnwys drwy caniatâd cynllunio, caniatâd amgylcheddol, trwyddedau petroliwm a chaniatâd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

C4. Oes gennych chi safbwynt ar y dystiolaeth ar Drafnidiaeth a Chynllunio?	
Materion a Godwyd	Ymateb Llywodraeth Cymru
Gallai mesurau rheoli effeithiol liniaru effaith symudiadau traffig.	Rydym ni'n cydnabod safbwynt yr awdurdodau cynllunio lleol, sef bod y dechnoleg, y prosesau a'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer datblygiad penodol yn bodoli er mwyn gallu echdynnu cronfeydd petrolewm yn ddiogel ac y dylai'r risgiau posibl i iechyd y cyhoedd yn sgil yr allyriadau sy'n gysylltiedig ag echdynnu petrolewm fod yn isel os bydd y gwaith yn cael ei wneud a'i reoleiddio'n iawn. Mae'r dull polisi sy'n cael ei ffafrio yn caniatáu ymchwil cwbl wyddonol a fyddai'n gwella'r sylfaen dystiolaeth sydd ar gael. Byddwn yn adolygu unrhyw dystiolaeth newydd sylweddol wrth iddi ddod i'r amlwg er mwyn llywio penderfyniadau polisi yn y dyfodol.
Nid yw pryderon o ran trafndiaeth a chynllunio yn seiliau rhesymol ar gyfer y	Roedd dystiolaeth yr ymgynghoriad hwn yn gyfle i ystyried materion trafndiaeth ar y cyd â materion economaidd-gymdeithasol, economaidd, datgomisio a newid hinsawdd.

<p>safbwyntiau polisi sy'n cael eu ffafrio.</p>	<p>Er ein bod ni'n cydnabod y gellid lliniaru'r effeithiau trafndiaeth, cafodd y safbwynt polisi rydyn ni'n ei ffafrio ei bennu yn erbyn sawl gofyniad deddfwriaethol a pholisi, yn ogystal â thystiolaeth sy'n ymwneud ag effeithiau economaidd-gymdeithasol, economaidd, newid hinsawdd, ôl-ofal a chynllunio.</p>
<p>Pam mae'r drafft o Bolisi Cynllunio Cymru: Argraffiad 10 yn cynnig trin y gwaith echdynnu nwy ac olew ar y tir o fewn yr hierarchaeth cynllunio ynni er mwyn adlewyrchu eu safbwynt fel y ffynhonnell tanwydd cynhyrchu pŵer sy'n cael ei ffafrio leiaf.</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi targedau heriol ar gyfer datgarboneiddio a chynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy. Ni fydd parhau i echdynnu tanwyddau ffosil, gan gynnwys nwy siâl a methan o wely glo, yn cyd-fynd â'r targedau hynny fel arfer.</p> <p>Felly, amcan polisi Llywodraeth yw osgoi parhau i echdynnu a defnyddio tanwyddau ffosil. Wrth gynnig echdynnu nwy ac olew ar y tir, bydd yn rhaid darparu tystiolaeth gredadwy a chadarn i'r graddau bod y cynigion yn cydymffurfio â'r hierarchaeth ynni, gan gynnwys sut maent yn gwneud cyfraniad gofynnol at ddatgarboneiddio'r system ynni.</p>
<p>Mae'r dystiolaeth yn gyffredinol ac yn berthnasol i bob symudiad cerbyd ar draws pob sector, gan gynnwys defnydd y boblogaeth gyffredinol o'r ffyrdd at ddibenion cymudo a/neu rai hamdden.</p>	<p>Rydyn ni'n cydnabod bod y dystiolaeth sy'n ymwneud â thrafnidiaeth wedi hwyluso amrywiaeth eang o ddata a fyddai'n berthnasol i sawl sefyllfa. Fodd bynnag, cafodd yr adroddiad ei gomisiynu yng nghyd-destun penodol echdynnu petrolewm ac fe ddefnyddiodd yr wybodaeth orau a oedd ar gael i bennu'r effeithiau posibl. Yr oedd y dystiolaeth ar drafnidiaeth yn debyg i'r hyn a ddefnyddiwyd yn yr ymgynghoriad yn yr Alban 'Talking Gracking', er hynny fe benderfynodd awduron yr adroddiad fod y data yn adlewyrchu'r amodau yng Nghymru.</p> <p>Fe gawsom gyngor a dadansoddiad gan arbenigwyr yn y maes er mwyn pennu'r casgliadau mwyaf cadarn o'r dystiolaeth a'r data sydd ar gael.</p>
<p>Cafodd y Cynlluniau Rheoli Trafnidiaeth eu cymeradwyo gan ddangos bod yr awdurdodau'n fodlon ar y ffyrdd mae'r gweithredwr yn cynnig diogelu defnyddwyr a seilwaith ffyrdd.</p>	<p>Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am ystyried y materion a all fod o arwyddocâd cenedlaethol ac felly mae hynny y tu hwnt i gwmpas neu arbenigedd awdurdodau cynllunio lleol. Er bod awdurdodau cynllunio lleol yn gallu pennu bod gan ddatblygiad oblygiadau derbyniol, gall y diwydiant ar raddfa ranbarthol neu genedlaethol ddal i achosi effaith annerbyniol yng nghyswllt effeithiau cronus neu bolisiau cenedlaethol.</p> <p>Ni fydd caniatâd cynllunio lleol bob amser yn cyd-fynd â pholisi cenedlaethol ehangach, felly mae Gweinidogion yn gallu galw ceisiadau i mewn.</p> <p>Roedd tystiolaeth yr ymgynghoriad, ar draws y meysydd pwnc a gafodd eu hystyried, yn gyfle i ystyried materion sy'n ymwneud â thrafnidiaeth ar y cyd â materion</p>

	economaidd, economaidd-gymdeithasol, newid hinsawdd a datgarboneiddio.
Roedd y dystiolaeth sy'n ymwneud â thrafnidiaeth yn seiliedig ar wybodaeth o'r Alban ac Unol Daleithiau America, felly mae'n bosibl nad yw hi'n berthnasol i Gymru.	<p>Cafodd adroddiad tystiolaeth trafndiaeth Cymru ei lunio gan yr un awduron â'r rhai wnaeth baratoi'r dadansoddiad a chasgliadau ar gyfer yr adroddiad ar ymgynghoriad Scottish Talking Fracking. Fe wnaeth yr awduron benderfynu bod y dystiolaeth a'r casgliadau ar yr Alban yn berthnasol yng Nghymru ar ôl ail-ddadansoddi'r data.</p> <p>Yn gyffredinol, fe benderfynodd awduron yr adroddiad bod lefel ganolig o hyder o ran pa mor berthnasol yw'r casgliadau a gyflwynir yn adroddiad Llywodraeth yr Alban, ynghylch effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol, ac ynghylch addasrwydd y rheolaethau, i amodau yng Nghymru. Nodwyd bod y diffyg tystiolaeth weithredol ar gyfer safleoedd petrolewm yn y DU yn achosi rhywfaint o ansicrwydd.</p>
Gallai technoleg newydd leihau nifer y symudiadau traffig yn sylweddol.	<p>Rydyn ni'n cydnabod y gallai technoleg newydd liniaru rhagor ar y risgiau posibl i iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd yn sgil trafndiaeth sy'n gysylltiedig ag echdynnu petrolewm.</p> <p>Fodd bynnag, cafodd y safbwynt polisi rydyn ni'n ei ffafrio ei bennu yn erbyn sawl gofyniad deddfwriaethol a pholisi, a thystiolaeth sy'n ymwneud ag effeithiau economaidd-gymdeithasol, economaidd, newid hinsawdd, ôl-ofal a chynllunio.</p>
Byddai gweithredwyr yn gallu edrych ar safleoedd posibl heb ganiatâd cynllunio cyn bo hir. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth y DU yn ymgynghori ar y posibilrwydd o gynnwys ffynhonnau nwy siâl sy'n defnyddio dulliau hollti nad ydynt yn rhai hydrologig yn rhan o'r datblygiad a ganiateir, ac mae'n ymchwilio i weld a ddylid cynnwys safleoedd cynhyrchu nwy siâl yn rhan o gynllun y prosiect seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol.	<p>Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am gynllunio yng Nghymru.</p> <p>Fyddai cynigion Llywodraeth y DU, sef dosbarthu tyllau turio olew a nwy archwiliadol fel datblygiad a ganiateir, ddim yn berthnasol yng Nghymru. Bydd craffu a chydsyniad cynllunio llawn, ynghyd ag ymgysylltu â'r cyhoedd yn effeithiol, yn parhau i fod yn ofyniad yng Nghymru ar gyfer unrhyw dyllau turio archwiliol arfaethedig oherwydd gall datblygiadau o'r fath gael effaith sylweddol ar gymunedau lleol.</p> <p>Ni fyddai cynnwys datblygiadau nwy siâl yn y cynllun Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol yn berthnasol yng Nghymru chwaith.</p>
Byddai defnyddio mwy ar gerbydau trydan yn galw am uwchraddio llawer	Yn ddiweddar fe wnaethom ymgynghori ar lwybr carbon isel ar gyfer Cymru. Fe wnaeth yr ymgynghoriad ofyn am safbwyntiau ar ba gamau gweithredu y dylem ni eu

<p>iawn ar y grid trydan yn ne Cymru, a allai fod yn gostus iawn a chymryd llawer o amser, yn ogystal ag achosi aflonyddwch.</p>	<p>cymryd i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr erbyn 2030. Mae'r ymgynghoriad ar y llwybr yn tynnu sylw at allyriadau presennol Cymru a'r heriau a'r cyfleoedd sy'n ymwneud â datgarboneiddio mewn sectorau gwahanol. Mae'r ymgynghoriad ar y llwybr carbon isel yn ystyried pa newidiadau i drafnidiaeth y gallwn eu gweld erbyn 2030.</p> <p>Ar hyn o bryd, mae rhannau mawr o Gymru nad oes ganddynt y seilwaith ategol sy'n debygol o fod yn ofynnol ar gyfer cyflwyno manau gwefru cerbydau trydan. Mae hyn yn golygu bod angen gwneud mwy o waith paratoi er mwyn gallu cael rhwydwaith gwefru teg a chyfiawn ledled Cymru. Bydd y gwaith paratoi hwn yn cael ei ystyried yn rhan o'r ymgynghoriad ar y llwybr carbon isel i Gymru.</p>
--	---

C5. Oes gennych chi safbwynt ar y dystiolaeth ar Ddatgomisiynu?	
Materion a Godwyd	Ymateb Llywodraeth Cymru
<p>Ni chafwyd digon o dystiolaeth i awgrymu na ddylid edrych ar echdynnu petrolewm ar sail datgomisiynu, yn enwedig gan fod corff yn bodoli yng Nghymru eisoes, Cyfoeth Naturiol Cymru, i integreiddio rheoli llygredd, i liniaru risgiau posibl i gyfanrwydd dŵr daear ac unrhyw bryderon ecolegol eraill.</p>	<p>Rydyn ni'n cydnabod safbwynt y diwydiant, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a Cyfoeth Naturiol Cymru, sef bod y dechnoleg a'r fframwaith rheoleiddio yn bodoli er mwyn gallu echdynnu cronfeydd petrolewm yn ddiogel ac y dylai'r risgiau posibl i iechyd y cyhoedd yn sgil yr allyriadau sy'n gysylltiedig â phetrolewm fod yn isel os bydd y gwaith yn cael ei wneud a'i reoleiddio'n iawn.</p> <p>Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod bod bylchau yn y sylfaen dystiolaeth a bod yn rhaid cael rhagor o wybodaeth er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r dechnoleg lleihau risgiau a'r ffordd orau o ddefnyddio'r rheoliadau presennol.</p> <p>Mae'r dull polisi sy'n cael ei ffafrio yn caniatáu ymchwil cwbl wyddonol a fyddai'n gwella'r sylfaen dystiolaeth sydd ar gael. Byddwn yn adolygu unrhyw dystiolaeth newydd sylweddol wrth iddi ddod i'r amlwg er mwyn llywio penderfyniadau polisi yn y dyfodol.</p> <p>Er ein bod ni'n cydnabod bod modd lliniaru'r effaith sy'n gysylltiedig â datgomisiynu, cafodd y safbwynt polisi rydyn ni'n ei ffafrio ei bennu yn erbyn sawl gofyniad deddfwriaethol a pholisi, yn ogystal â thystiolaeth sy'n ymwneud ag effeithiau economaidd-gymdeithasol, economaidd, newid hinsawdd, ôl-ofal a chynllunio.</p>
<p>Rhaid i weithredwyr ddarparu gwytnwch ariannol i ddangos i reoleiddwyr bod</p>	<p>Mae gan Gymru, yn yr un modd â gweddill y DU, fframwaith ar gyfer rheoleiddio a rheoli gwaith datgomisiynu ac ôl-ofal datblygiadau petrolewm, yn debyg iawn i systemau</p>

<p>ganddynt y capasiti i ddatgomisiynu safleoedd os bydd angen.</p>	<p>rheoleiddio da mewn gwledydd eraill.</p> <p>Mae datganoli pwerau Awdurdod Olew a Nwy i Weinidogion Cymru yn gyfle i brofi gwytnwch ariannol gweithredwyr yn ystod prosesau trwyddedu ac yn ystod trosglwyddo trwyddedau.</p> <p>Bydd y profion capasiti a gwytnwch ariannol sy'n berthnasol i weithredwyr petrolewm sydd am gael cydsyniadau gan Weinidogion Cymru yn cael eu disgrifio yn y canllaw technegol. Bydd y canllaw ar gael ar dudalen we Llywodraeth Cymru ar betrolewm.</p>
---	---

C6. Oes gennych chi safbwynt ar y dystiolaeth economaidd?	
Materion a Godwyd	Ymateb Llywodraeth Cymru
<p>Mae safbwynt ar effaith economaidd y diwydiant wedi deillio cyn i'r broses archwilio gael bwrw ymlaen.</p>	<p>Rydyn ni'n sylweddoli bod y dystiolaeth yn seiliedig gan fwyaf ar astudiaethau desg neu o brofiadau o wledydd eraill. Fodd bynnag, wrth gomisiynu'r gwaith ar y dystiolaeth, cawsom arbenigedd gan sefydliad sydd â hanes o gymathu data o'r fath a sicrhau casgliadau a modelau cryf.</p> <p>Hefyd, roedd y gwaith ar y dystiolaeth yn hwyluso'r ceisiadau niferus am drwyddedau a chynlluniau sydd wedi'u cyflwyno dros y degawd diwethaf er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r datblygiadau petrolewm arfaethedig.</p>
<p>Mae'r dystiolaeth economaidd yn rhy benodol ac nid yw'n edrych ar yr effeithiau cadarnhaol ehangach; yn enwedig o ystyried y gallai cronfeydd Cymru fod yn rhan o farchnad y DU a'r UE.</p> <p>Mae angen am ddatblygiadau ynni cynhenid o bob math (ee, olew, nwy, niwclear ac ynni adnewyddadwy) er mwyn cael gwared â'r ddibyniaeth ddwys ar fewnforio.</p>	<p>Mae Llywodraeth y DU yn dal i fod yn gyfrifol am bolisïau ynni, gan gynnwys canfod a mewnforio olew a nwy o'r tu allan i'r DU.</p> <p>Amcangyfrif fod Cymru wedi cynhyrchu 32.5 TWh o drydan yn 2017, mwy na dwbl yr hyn wnaeth hi ei ddefnyddio. Felly, mae Cymru yn allforiwr trydan net sylweddol i Loegr, lwerddon a'r rhwydwaith Ewropeaidd ehangach.</p> <p>Fe wnaeth ynni adnewyddadwy Cymru gynhyrchu trydan sy'n gyfwerth â 48% o ddefnydd Cymru yn 2017. Ein targed yw cynhyrchu'r hyn sy'n gyfwerth â 70% o'r trydan rydyn ni'n ei ddefnyddio o ynni adnewyddadwy erbyn 2030.</p> <p>Mae angen i ni barhau i ddatblygu a chefnogi ffurfiau newydd ar ynni adnewyddadwy er mwyn creu system ynni aml-factor a chytbwys.</p> <p>Er ein bod yn cydnabod y rôl sydd i nwy fel tanwydd pontio hyd nes y caiff ei ddisodli</p>

	<p>gan ynni adnewyddadwy a chynhyrchu ynni niwclear carbon isel, gallai cyflwyno cyflenwad ychwanegol o petroliwm i Gymru ddisodli buddsoddiad mewn systemau ynni adnewyddadwy.</p>
<p>Gall safleoedd echdynnu petrolewm gael effaith gadarnhaol ar gymunedau, drwy becyn manteision cymunedol er enghraifft.</p>	<p>Mae'r dystiolaeth o'r astudiaeth gan Regeneris yn 2015, a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad, yn dangos bod effeithiau economaidd yn debygol o fod yn rhai dros dro, gyda llawer o'r rolau technegol ar gyflogau uchel yn cael eu llenwi o du allan i'r gymuned leol.</p> <p>Nid ydym yn fodlon peryglu llesiant cymunedau yn y dyfodol pan fo'r potensial ar gyfer swyddi tymor hir yn fach.</p> <p>Rydyn ni'n cydnabod y gallai pecyn manteision cymunedol, tebyg i'r Gronfa Cyfoeth Siâl, fod o fudd i gymunedau lleol. Fodd bynnag, ni fyddai pecyn o'r fath yn cael gwared â'r effeithiau posibl y byddai cynhyrchu petrolewm yn eu cael o ran yr amgylchedd a newid hinsawdd.</p>